



**Cynllunio Digwyddiadau ac
Ystyriaethau
Gwrthderfysgaeth**



monmouthshire
sir fymwy



**HEDDLU
GWENT
POLICE**



Wales Extremism & Counter Terrorism Unit
Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru

CYNLLUNIO DIGWYDDIADAU AC YSTYRIAETHAU GWRTHDERFYSGAETH

Annwyl Drefnydd Digwyddiadau,

Mae Cyngor Sir Fynwy, Heddlu Gwent ac Uned Eithafiaeth a Gwrthderfysgaeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn rhoi cyngor a chymorth i drefnwyr digwyddiadau am sut i liniaru'r bygythiad o derfysgaeth pan fyddant yn cynllunio digwyddiad yn ardal Sir Fynwy. Er ein bod yn credu bod ein digwyddiad yn ddiogel, mae'r bygythiad o derfysgaeth yn real ac mae'n fwyfwy anodd rhagweld hynny yn anffodus, gyda mannau cyhoeddus a phoblog yn darged deniadol i derfysgwyr.

I weld lefel presennol y bygythiad yn y DU ewch i: <https://www.gov.uk/terrorism-national-emergency>

Hoffem i chi ystyried yr hyn y gallwch 'chi' ei wneud i leihau'r risg a lliniaru'r effaith yn sgil ymosodiad o'r fath. Gall proses gynllunio effeithiol leihau'r tebygolrwydd o ymosodiad yn sylweddol. Rydym yn deall nad yw pob digwyddiad yr un fath, er enghraifft:

- Dylai digwyddiadau llai megis ffair bentref ystyried ychwanegu ystyriaethau gwrthderfysgaeth at y Cynllun Rheoli Digwyddiadau/Asesiad Risg. Gellir cynnwys hynny fel rhan o'r briff i stiwardiaid a'i ategu gyda hyfforddiant byr ar-lein: 'Hyfforddiant Gwrthderfysgaeth wrth fwrdd y gegin' - <https://ct.highfieldlearning.com> a ddarperir gan y Swyddfa Genedlaethol Diogelwch a Gwrthderfysgaeth (Saesneg yn unig).
- Ar gyfer digwyddiadau mwy megis digwyddiadau cerddoriaeth mawr/gwyliau/gwyliau bwyd/Stadia Chwaraeon etc., bydd angen Cynllun Diogelwch ar gyfer Digwyddiad sy'n gweithio'n iawn a chynnal ymarferion rheolaidd.

Efallai eich bod yn gyfarwydd â rhoi cynllun at ei gilydd ar gyfer eich digwyddiad ac yn gwybod sut i roi sylw i lawer o'r gofynion o ran diogelwch, ond efallai nad ydych mor gyfarwydd â materion diogelwch sy'n ymwneud â therfysgaeth yn benodol. Dyma rai o'r pethau yr hoffem i chi eu hystyried wrth lunio eich cynllun. Nid yw'n rhestr gyflawn ac ar ddiwedd y ddogfen hon rydym yn cyfeirio at wefannau ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth.

Cynllunio Diogelwch

Yn dibynnu ar y math o ddigwyddiad a'i faint efallai yr hoffech lunio cynllun diogelwch ar gyfer y digwyddiad sy'n ystyried y risg/bygythiad o ymosodiad terfysgol. Os nad ydych yn siŵr, gall eich rheoleiddwyr lleol fel Heddlu Gwent, Awdurdod Lleol neu Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau Sir Fynwy eich cynghori ar y camau priodol a chymesur y dylech eu cymryd wrth gynllunio eich digwyddiad. Ymysg y prif faterion i'w cynnwys mae'r canlynol:

1. Cyn y digwyddiad meddyliwch sut y byddwch yn ei hysbysebu. Gofalwch beidio â rhoi gormod o wybodaeth a allai gynorthwyo terfysgwr i gynllunio ymosodiad. Dylech ystyried beth i'w gynnwys er mwyn atal hyn. Gelwir hyn yn ddulliau cyfathrebu atal (ewch i adran [Cyfathrebu - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk))
2. Y safle ei hun, gan ddechrau o'r tu allan iddo, y perimedr a'r tu mewn i'r safle ble y cynhelir y digwyddiad. Beth yw'r risgiau a'r pethau y gallwch eu gwneud i'w lliniaru?
3. Mae cyfathrebu yn allweddol i reoli digwyddiad. A yw eich dulliau cyfathrebu yn 'addas at y diben'? Nid dim ond sut rydych yn cyfathrebu â'ch staff ond sut rydych yn cyfathrebu â'r cyhoedd hefyd.
4. Os ydych yn trefnu digwyddiad mawr neu dorfol i lawer o bobl, dylech ystyried cynnal gwahanol senarios i ymarfer diogelwch neu gamau gwrthderfysgaeth wrth y ddesg gyda thîm rheoli'r digwyddiad cyn y digwyddiad.

5. Darparu hyfforddiant i staff â thâl a gwirfoddolwyr. Mae hyfforddiant E-ddysgu mewn Ymwybyddiaeth o ACT rhagorol ar gael ar-lein am ddim - sef 'Hyfforddiant gwrthderfysgaeth wrth fwrdd y gegin' i godi ymwybyddiaeth y staff a'u grymuso. Edrychwch ar y ddolen ar ddiwedd y daflen hon i gofrestru ar gyfer yr hyfforddiant ar-lein.

Mae Grŵp Cynghori ar Ddiogelwch Digwyddiadau Sir Fynwy – www.monmouthshire.gov.uk/esag yn argymhell yn gryf y dylid cynllunio ar gyfer digwyddiad terfysgol a gall ofyn am fanylion eich **Cynllun Diogelwch ar gyfer Digwyddiad** pan fydd yn ystyried eich cais.

Isod ceir gwefannau sy'n rhoi gwybodaeth bellach am leihau ymosodiad terfysgol ac sy'n eich cynorthwyo i ddatblygu Cynllun Diogelwch ar gyfer Digwyddiad.

www.nactso.gov.uk (Gweler y CANLLAWIAU AR GYFER MANNAU TORFOL sy'n eich cynorthwyo i lunio ac i ddatblygu Cynllun Diogelwch ar gyfer Digwyddiad. Ar y wefan hon hefyd mae canllawiau cenedlaethol eraill a manylion am gynnyrch pwysig a hynny am ddim).

www.cpni.gov.uk – Cyngor pellach ar fesurau diogelwch amddiffynnol.

'Hyfforddiant Gwrthderfysgaeth wrth fwrdd y gegin' - <https://ct.highfieldelearning.com> (Saesneg yn unig). Datblygwyd yr hyfforddiant E-ddysgu mewn Ymwybyddiaeth o ACT a enillodd wobrau yn rhyngwladol mewn partneriaeth â'r manwerthwr enwog Marks and Spencer a Highfield Learning.

Dim ond 45 munud mae'n ei gymryd i gwblhau'r cwrs rhyngweithiol, sydd ar gael i gwmnïau neu unigolion preifat, a gellir gwneud hynny mewn un sesiwn neu mewn modiwlau byr. Mae'n esbonio sut i adnabod ymddygiad amheus, a'r pethau y gallwch eu gwneud i'ch helpu chi, i helpu eraill ac i helpu'r rhai sy'n ymateb i argyfwng os bydd ymosodiad.

